



Civil Procedure
Rule Committee

YMGYNGHORIAD GAN Y PWYLLGOR RHEOL TREFNIADAETH SIFIL (CPRC)

NEWIDIADAU ARFAETHEDIG YNGLŶN Â DARPARIAETHAU SY’N YMWNEUD Â’R

IAITH GYMRAEG

Cefndir

Mae’r CPRC yn gyfrifol, o dan ddarpariaethau’r Ddeddf Trefniadaeth Sifil 1997, am wneud rheolau’r llys yn rheoli’r arfer a’r weithdrefn i’w dilyn yn Adran Sifil y Llys Apêl, yr Uchel Lys a’r Llys Sirol. Mae’n ymwneud â bwriad i sicrhau bod y system gyfiawnder yn hygyrch, yn deg ac yn effeithiol ac i geisio gwneud rheolau sy’n syml ac yn cael eu mynegi’n syml.

O dan adran 3 o Ddeddf 1997, mae’r CPRC, cyn gwneud rheolau, i ymgynghori gydag unigolion a ystyrir yn briodol.

Trosolwg

Mae’r Rheolau Trefniadaeth Sifil (CPR) a’i Gyfarwyddiadau Ymarfer (PDs) mynychydd yn cynnwys amrywiaeth o ddarpariaethau a gyfeiriwyd yn benodol at faterion sy’n ymwneud â Chymru a’r iaith Gymraeg. Maent yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr. Mae’r darpariaethau hyn wedi’u cyflwyno a’u diwygio’n dameidiog dros y blynyddoedd. Cynhaliwyd adolygiad gan yr aelod barnwrol Cymraeg o’r CPRC ac mae’r adolygiad hwnnw o’r rheolau a newidiadau posibl wedi’u hystyried gan y CPRC.

Cafodd yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn ei gomisiynu yn dilyn trafodaethau yn y CPRC ar 9 Mai 2025 a 3 Hydref 2025 (gellir darllen y cofnodion ar-lein yma <https://www.gov.uk/government/organisations/civil-procedure-rules-committee/about#minutes>).

Yr Ymgynghoriad hwn

Rydym nawr yn gwahodd barn a sylwadau ar y cynigion a amlinellwyd yn y ddogfen hon. I grynhoi, mae’r cynigion yn cynnwys diwygiadau i’r:

- PD Datganoli;
- PD yr iaith Gymraeg a’r arfer a’r weithdrefn sy’n ymwneud â darpariaethau rhestru o fewn y PD a’r arfer a’r weithdrefn mewn amgylchiadau ble mae yna broblem o ran cyfieithu testun Cymraeg.

Sut i ymateb

Anfonwch eich ymatebion i CPRCconsultation@justice.gov.uk (mewn fformat word neu PDF) gyda’r pennawd “Ymgynghoriad ar yr iaith Gymraeg”

Dyddiad Cau ar Gyfer Ymatebion

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cau ar 9fed o Ionawr 2026

Cwestiynau

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad hwn, gallwch ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost uchod neu anfon e-bost i'r mewnflwch ymholiadau cyffredinol yn CPRC@justice.gov.uk

Y Camau Nesaf

Caiff y mater ei gynnwys ar gyfer ystyriaeth CPRC ar ôl i'r ymgynghoriad hwn ddod i ben. Gallwch ddilyn cynnydd drwy ddarllen cofnodion cyfarfodydd CPRC yma <https://www.gov.uk/government/organisations/civil-procedure-rules-committee/about#minutes>

Data

Bydd data yn cael ei drin yn unol â Hysbysiad Preifatrwydd Data Personol CPRC yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/707892/cprc-privacy-notice-may-2018.pdf

Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil

Hydref 2025

Cyflwyniad

1. Mae'r Rheolau Trefniadaeth Sifil (CPR) a'i Gyfarwyddiadau Ymarfer (PDs) mynychydd yn cynnwys amrywiaeth o ddarpariaethau a gyfeiriwyd yn benodol at faterion sy'n ymwneud â Chymru a'r iaith Gymraeg. Maent yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr. Mae'r darpariaethau hyn wedi'u cyflwyno a'u diwygio'n dameidiog dros y blynyddoedd. Cynhaliwyd adolygiad o'r rheolau a'r newidiadau a ystyriwyd gan y Pwyllgor. Penderfynwyd cynnal ymgynghoriad ar gynigion y Pwyllgor.

Crynodeb

2. Mae'r CPRC yn nodi bod y Rheolau yn gweithio'n dda o ran deddfwriaeth penodol i Gymru. Cafodd CPR 55 a 56 eu diwygio ym mis Rhagfyr 2022 ar weithredu'r Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Mae'n ymddangos nad oes unrhyw ddeddfwriaeth benodol arall i Gymru a fyddai angen diwygio'r Rheolau. Efallai y bydd angen rhai mân newidiadau testun gofynnol i'r amrywiol reolau a PDs i ddiweddarw'r iaith e.e. i adlewyrchu Llywodraeth Cymru yn dod yn Senedd.

3. O ran cyfieithu testun deddfwriaeth ddwyieithog, nid yw darpariaethau sy'n ymwneud â materion datganoli ac fel arall yn cyfateb. Darperir asesydd barnwrol sy'n siarad Cymraeg i gynorthwyo'r llys mewn perthynas â materion datganoli gan y PD datganoli penodol, a ddiwygiwyd ddiwethaf yn 2017.

4. Ers cyflwyno'r PD ar faterion datganoli bu dau ddatblygiad pwysig. Mae yna bellach garfan gynyddol o farnwyr sy'n siarad Cymraeg ar gael i gynorthwyo ac mae yna hefyd deddfwriaeth Gymraeg sylweddol mewn grym (fel Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016). Awgrymir gan y CPRC bod y cysyniad yn y PD datganoli yn cael ei ddiwygio a'i ymestyn i ganiatáu ar gyfer o leiaf y posibilrwydd o farnwyr sy'n siarad Cymraeg yn eistedd mewn achosion sy'n cynnwys deddfwriaeth yn y Gymraeg - ble bo'n ymarferol a bob amser yn ddarostyngedig i'r prif amcan.

5. Mae'r PD Datganoli yn gyfyngedig i achosion ble mae naill ai parti neu'r Llys yn ystyried bod yna fater datganoli i gael ei gyfeirio. Mae'r PD yn diffinio mater datganoli yn unol ag Atodlen 8 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Cafodd Atodlen 8 ei diddymu gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

CWESTIWN 1 - Ydych chi'n cytuno y dylai'r PD Datganoli gael ei ddiddymu neu ei ddiwygio? Os ydych yn gallu, rhowch resymau.

Mater yr iaith Gymraeg yn fwy manwl

6. Mae perthnasedd y PD Datganoli yn cyfeirio at yr iaith Gymraeg yn cael ei wneud o fewn y Cyfarwyddyd Ymarfer. Mae Paragraff 12 o'r PD yn amodi:

“12.1 Os bydd unrhyw barti yn dymuno cyflwyno honiad mewn perthynas â mater datganoli sy'n cynnwys cymharu testunau Gymraeg a Saesneg o unrhyw is-ddeddfwriaeth y Cynulliad, dylai'r parti hwnnw hysbysu'r llys gynted â phosibl.

12.2 Ar ôl derbyn yr hysbysiad, bydd y llys yn ystyried y modd priodol o benderfynu ar y mater, gan gynnwys, os bydd angen, penodi asesydd barnwrol sy'n siarad Gymraeg i gynorthwyo'r llys.

12.3 Dylai partïon i unrhyw achosion ble defnyddir yr iaith Gymraeg hefyd gydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Ymarfer dyddiedig 16 Hydref 1998 (sy'n ymwneud ag achosion yn Llys y Goron) a'r Cyfarwyddyd Ymarfer dyddiedig 26 Ebrill 1999 (sy'n ymwneud ag achosion sifil). Mae'r Cyfarwyddiadau Ymarfer hyn yn berthnasol, fel bo'n briodol, i achosion yn cynnwys mater datganoli ble defnyddir yr iaith Gymraeg.”

7. Mae'r cyfeiriad yn gyfyngedig i gydymffurfio gydag unrhyw Gyfarwyddyd Ymarfer sy'n berthnasol i achosion trosedd a sifil ond nid yw'n cyfeirio at achosion teulu neu dribiwnlys. Nid oes unrhyw gofnod hysbys o asesydd wedi'i benodi yn unol â darpariaethau yn y Cyfarwyddyd Ymarfer.

8. Roedd Rheolau Gweithdrefn Sifil yn 2018 yn cryfhau darpariaethau sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg gan ddiwygio'r Brif Amcan drwy gynnwys paragraff 1.5 newydd, fel a ganlyn.

“Yr Iaith Gymraeg

1.5 (1) Nid oes unrhyw beth yn y brif amcan yn tanseilio'r egwyddorion a ddarparwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011(3) bod gan y Gymraeg Statws swyddogol yng Nghymru neu gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(4) mewn unrhyw achosion cyfreithiol yng Nghymru gellir defnyddio'r Gymraeg gan unrhyw un sy'n dymuno ei defnyddio.

(2) Mae'n ofynnol i'r partïon gynorthwyo'r llys i weithredu'r egwyddorion a nodir ym mharagraff (1).”

9. Mae yna hefyd Gyfarwyddyd Ymarfer cyffredinol ar y Gymraeg – gweler [PRACTICE DIRECTION RELATING TO THE USE OF THE WELSH LANGUAGE IN CASES IN THE CIVIL COURTS IN OR HAVING A CONNECTION WITH WALES – Civil Procedure Rules – Justice UK](#)

Mae hyn yn berthnasol i unrhyw achosion yng Nghymru neu sydd â chysylltiad â Chymru. Mae'n sicrhau bod partïon yn hysbysu'r llys os defnyddir y Gymraeg neu os bydd dogfennau'n cael eu cyflwyno yn y Gymraeg gerbron y llys. Mae'r PD yn nodi rôl Barnwr Cyswllt yr Iaith Gymraeg ac Uned Iaith Gymraeg GLITEF. O ran rhestru, mae'r PD yn nodi ym mharagraff 4.1 y bydd:

“Bydd y rheolwr dyddiadur, mewn ymgynghoriad gyda'r Barnwr Sifil Dynodedig a Barnwr/Barnwyr Cyswllt y Gymraeg, yn sicrhau y bydd achos lle y defnyddir y Gymraeg yn cael ei restru -

(a) ble bynnag y bydd hynny'n ymarferol gerbron barnwr Cymraeg ei iaith; a

(b) ble bo angen cyfleusterau cyfieithu, mewn llys gyda chyfleusterau cyfieithu ar y pryd. “

10. Codwyd ymholiad penodol gan Lywodraeth Cymru o ran goblygiadau penderfyniad y Llys Apêl Driver v Rhondda Cynon Taff County Borough Council [2020] EWCA Civ 1759. Yr awgrym yw ble mae anghydfod o ran cyfieithu testun fersiynau Gymraeg a Saesneg o ddeddfwriaeth y dylid penodi barnwr sy'n siarad Gymraeg i'r achos.

10.1 Roedd Driver fel y nodwyd yn y dyfarniad yn “achos ble mae'r llys angen edrych ar destunau'r ddeddfwriaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, oherwydd yr awgrymwyd bod yna wrthdaro neu wahaniaeth rhwng y ddau”. Mae hyn yng nghyd-destun bod deddfwriaeth a rheoliadau a ddeddfwyd gan y Senedd yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae statws gyfartal i'r ddwy iaith.

10.2 Nodwyd ymhellach yn Driver - “Ble mae deddfwriaeth a ddeddfwyd mewn dwy iaith sy'n gyfartal, a bod y partïon yn awgrymu bod, neu gall fod gwrthdaro neu wahaniaeth rhwng fersiynau'r ddwy iaith, mae'n bosibl y bydd dadansoddiad manwl o bob fersiwn yn angenrheidiol.”

10.3 Ym mharagraffau 14 ac 15 o'r penderfyniad, roedd Canghellor yr Uchel Lys bryd hynny, Syr Geoffrey Vos, wedi nodi efallai bod yna achosion ble byddai'n hynod ddymunol i'r llys gael arbenigedd ar y Gymraeg er yn yr achos hwnnw nid oedd y llys yn teimlo dan anfantais wrth benderfynu ar y cwestiwn.

11. Nid oedd y PD Datganoli yn berthnasol i'r amgylchiadau yn Driver felly nid oedd unrhyw gyfeiriad i'w ddarpariaeth yn yr achos. Nid yw'r CPRC yn ffafrio'r defnydd o aseswyr ar y sail os oes yna broblem dehongli o ran deddfwriaeth yn Saesneg gan y Llys, rôl y barnwr yw dehongli ac nid asesydd. Y dewis a ffeirir fyddai barnwr sy'n siarad Cymraeg.

CWESTIWN 2 - Ydych chi'n ffafrio mewn amgylchiadau ble mae yna broblem o ran cyfieithu testun Cymraeg i benodi asesydd neu i benodi barnwr sy'n siarad Cymraeg?

Dewisiadau

12. Mae'r dewisiadau a ystyriwyd gan y CPRC fel a ganlyn:

12.1 **Dewis 1** - Dim newidiadau i'r CPR nac unrhyw PD.

Barn y CPRC os ffeirir y dewis hwn yw y byddai amwysedd yn parhau a dim darpariaeth o ran yr angen am farnwr sy'n siarad Cymraeg ble mae yna broblem o ran cyfieithu testun Cymraeg.

12.2 **Dewis 2** - Darpariaeth o fewn y Rheolau mewn achos ble mae yna anghydfod o ran cyfieithu testun Cymraeg **rhaid** penodi barnwr sy'n siarad Cymraeg i wrando'r achos.

Barn y CPRC yw y byddai hyn angen newid i'r CPR. Byddai angen adolygiad helaeth o'r Rheolau ac amrywiol ganllawiau arbenigol. Efallai y bydd angen darparu ar gyfer barnwyr ag “awdurdodaeth” i wrando achosion o'r fath. Nid yw'n hysbys pa un a oes yna farnwyr sy'n siarad Cymraeg ar y lefel briodol ac arbenigedd i sicrhau y gall pob achos posibl gael ei restru yn ôl gofyniad o'r fath. Nid yw'n glir i'r CPRC pa un a yw darpariaeth yn bodoli o fewn y Tribiwnlysoedd Datganoledig.

12.3 **Dewis 3** - Newid arfaethedig i'r PD sy'n ymwneud â'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel a ganlyn:

12.3.1 Yr amgylchiadau a nodwyd ym Mharagraff 4 o'r Cyfarwyddyd Ymarfer i gael eu hymestyn y tu hwnt i “achos ble caiff yr iaith Gymraeg ei defnyddio” i gynnwys ble mae yna broblem o ran cyfieithu testun Cymraeg a Saesneg. Mae'r PD Materion Datganoli yn defnyddio'r gair “cymhariaeth” nad yw'r CPRC yn ei ystyried yn gwbl briodol gan mai cyfieithu'r testun yn y ddwy iaith sy'n ofynnol, nid cymharu.

12.3.2 Gall gofynion cyfieithu godi fel arall heblaw mewn cyd-destun deddfwriaeth. Efallai y bydd yna enghraifft o broblem cyfieithu

contract cyflogaeth Cymraeg, ond mewn achos ble nad yw'r naill barti na'r llall yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn ystod yr achos. Byddai'r estyniad arfaethedig i'r amgylchiadau a nodwyd gan baragraff 4 o'r PD yn caniatáu'r angen i ystyried barnwr sy'n siarad Cymraeg.

12.3.3 Mae'r CPRC yn cynnig y byddai'r canlynol yn ffurf geirio Cyfarwyddyd Ymarfer diwygiedig (paragraff 4.1)

“.....achos ble defnyddir yr iaith Gymraeg neu **ble mae'r Llys yn penderfynu bod yna anghydfod gwirioneddol o ran cyfieithiad o gynnwys ysgrifenedig yn y Gymraeg, gan gynnwys cynnwys deddfwriaeth,** wedi'i restru-
.....“

12.3.4 Penderfynu pa un a oes yna anghydfod o ran a fyddai cyfieithu testun Cymraeg yn parhau'n benderfyniad barnwrol.

12.3.5 Byddai'r cyfeiriad at asesydd Cymraeg yn y PD Datganoli yn cael ei ddileu os byddai'r PD yn cael ei ddiddymu.

12.3.6. **Dewis 3 yw'r dewis a ffefrir gan y CPRC.**

CWESTIWN 3 - Pa un o'r 3 Dewis arfaethedig a ffefrir gennych a pham?

13. Os mabwysiedir Dewis 3, mae'r CPRC yn nodi y gallai newid pellach i'r Cyfarwyddyd Ymarfer gynnwys newid i'r ddarpariaeth restru. Y geiriad presennol ar gyfer achosion ble defnyddir yr iaith Gymraeg yw y dylid ei restru gerbron barnwr sy'n siarad Cymraeg “ble bynnag bo'n ymarferol”. Mae yna yn ychwanegol, ofyniad am atgyfeiriad i Farnwr Cyswllt yr iaith Gymraeg. Dull amgen fyddai bod yn rhaid i achosion o'r fath “gael eu clywed gan farnwr sy'n siarad Cymraeg oni bai bod yna resymau da dros beidio gwneud hynny.” Byddai argaeledd barnwrol a ffactorau eraill o fewn y Brif Amcan fel oedi yn berthnasol.

CWESTIWN 4 - A ydych yn ffafrio'r ddarpariaeth o ran darpariaethau rhestru o fewn y PD i aros fel ag y mae ar hyn o bryd (“ble bynnag bo'n briodol”) neu'n ffafrio newid i “rhaid i farnwr sy'n siarad Cymraeg wrando'r achos oni bai bod yna resymau da dros beidio gwneud hynny”?